

## Cynlluniau datblygu ysgolion – cynigion i gyflwyno rheoliadau

### Ffurflen

### Ymateb i

### Ymgynghoriad

Eich enw: Sue Williams

Sefydliad: (os yn berthnasol) Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhif ebost/ffôn: 0300 0650 3000

[sue.williams@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:sue.williams@naturalresourceswales.gov.uk)

Eich Cyfeiriad: Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych.  
LL15 2NL

Dylid ymateb erbyn **21 Gorffennaf 2014** i

Ymgynghoriad Cynlluniau Datblygu Ysgolion

Adain Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol

Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

neu yn electronig at

e-bost [PracticeReviewandDevelopment@wales.gsi.gov.uk](mailto:PracticeReviewandDevelopment@wales.gsi.gov.uk)



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

(rhowch 'Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Ysgolion' ym  
mlwch testun yr ebost)

Ffurfiwyd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013 drwy uno staff Comisiwn  
Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth Amgylchedd

Cymru yng Nghymru. Cyfoeth Naturiol Cymru yw corff mwyaf Llywodraeth Cymru sy'n cael ei noddi'n gyhoeddus gyda ychydig llai na 2000 o staff, cyllideb weithredol o £17 miliwn ac mae'n rheoli 7% o dir Cymru.

### **Nod Cyfoeth Naturiol Cymru:**

*..... chwarae rhan ganolog mewn sicrhau datblygu cynaliadwy i Gymru. Golyga hynny ddod â rheolaeth ein hadnoddau naturiol ac amgylcheddol ynghyd yn gytbwys a chyfun er budd y bobl, yr amgylchedd a'r economi.*

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn. Ein nod yw amlygu pwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol, fod angen sefydlu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn yr ystyr ehangach yn y cwricwlwm a phwysigrwydd dysgu allan o'r dosbarth ym mhob cyfnod allweddol.**

**Cwestiwn 1** - Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i lyfnhau'r prosesau ar gyfer cynllunio strategol a gosod targedau fel bod y Cynllun Datblygu Ysgolion yn cynnwys pob dogfen gynllunio strategol arall? (Gweler adran 4)

<b>Cytuno</b>	<b>x</b>	<b>Anghytuno</b>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>
---------------	----------	------------------	--

### **Sylwadau:**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai'n ddoeth llyfnhau'r prosesau cynllunio strategol a gosod targedau rhag achosi dyblygu a biwrocratiaeth ddianghenraid.

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno â'r atodlen arfaethedig o gynnwys gofynnol? (Gweler adran 5)

<b>Cytuno</b>		<b>Anghytuno</b>		<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<b>x</b>
---------------	--	------------------	--	--	----------

**Sylwadau:**

Mae'r atodlen ofynnol arfaethedig yn ymddangos yn synhwyrol er nad oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru sylw penodol i'w dalu ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r corff llywodraethu, defnyddio gwybodaeth perfformiad ysgolion ar gyfer y Cynllun Datblygu Ysgolion, amserlen ar gyfer gweithredu, cyhoeddi a mynediad at y Cynllun nac ar y dyletswydd i adolygu.

Cynnwys gofynnol y Cynllun Datblygu Ysgolion

Mae pwynt IV yn datgan y bydd yn rhaid i ysgolion ddangos sut y maen nhw'n bwriadau defnyddio'r adnoddau sydd ar gael a hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru weld defnydd a datblygiad tiroedd ysgolion fel ffynhonnell a lleoliad dysgu'n cael ei gynnwys yn yr adran hon. Mae defnyddio a datblygu tiroedd mewn ysgol yn dibynnu'n aml ar aelod brwdfrydig o staff ac, mewn rhai achosion, os yw'r aelod yn gadael, gall y manau bywyd gwyllt neu'r dosbarthiadau awyr agored gael eu hesgeuluso a'u tanddefnyddio mewn dim o dro.

Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru weld ysgolion yn gosod cymaint o bwyslais ar fannau awyr agored ag ar y rhai o dan do.

Gall dosbarthiadau awyr agored, rhandiroedd, gerddi bywyd gwyllt, cylchoedd boncyffion a phyllau tân gynnog llawer iawn o wahanol gyfleoedd i wella dysgu, i alluogi plant i ailgysylltu â byd natur, i ddeall cysyniadau'r cwricwlwm Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ac i gael profiad ymarferol o reoli adnoddau naturiol ysgolion.

Gall plannu coed a phrysglwyni'n gydymdeimladol fod yn fanteisiol yn aml, gan arwain at gynnydd mewn bioamrywiaeth, rheoli dŵr ffo a datblygu cysgod.

--

**Cwestiwn 3** – Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cynllun Datblygu Ysgolion gynnwys, o leiaf, gynllun manwl ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol a chynllun amlinellol ar gyfer y ddwy flwyddyn academaidd ddilynol? (Gweler adran 5)

Cytuno	x	Anghytuno		Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	
--------	---	-----------	--	------------------------------------	--

**Sylwadau:**

Bydd syniad o'r tymor hirach o fantais wrth ddatblygu a chynnal tiroedd ysgolion yn effeithiol a dylai'r tair blynedd a awgrymir fod y lleiafswm.

**Cwestiwn 4** – Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes yna unrhyw fater cysylltiedig nad ydym ni wedi cyfeirio ato'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w grybwyll.

**Sylwadau:**

Mae'r ymgynghoriad yn datgan yn glir fod angen hunan werthusiad a chynllunio gwella er mwyn symud ymlaen mewn dysgu proffesiynol a gwella canlyniadau i'r dysgwyr.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon cefnogi'r broses hon drwy ddarparu hyfforddiant Datblygu Proffesiynol Parhaus ar ddefnyddio tiroedd ysgolion a'r amgylchedd naturiol. Drwy ei rwydwaith Dysgu Awyr Agored Cymru,

mae'n gallu cynnig i athrawon rwydwaith leol i rannu ymarfer da, cymryd rhan mewn digwyddiadau rhannu sgiliau a chael adnoddau i'w defnyddio.

Mae'n debyg y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch yma: